YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLV. CHWEFROR, 1945. RHIF 2.

Y Gyfeillach Grefyddol.

I'R Cristnogion cyntaf, rhyw grwp bychan yn byw mewn amgylchoedd gelyniaethus, yr oedd cymdeithasu yn beth angenrheidiol. Yn wyneb pwerau gwaethaf yr Ymerodraeth Rufeinig fe roddwyd i'r Cristnogion gwasgaredig hyn drwy eu cymdeithas a'i gilydd mewn addoliad ac mewn bywyd ymdeimlad o rym a gallu.

Dyma ddywed un ysgrifennydd diweddar am gyfeillach y Cristnogion bore—"Cymdeithas weledig gyda'i gilydd, canlyniad cymdeithas anweledig a Iesu—dyna nodwedd neilltuol y Cristnogion i gyd, y rhwymyn a oedd yn eu clymu wrth ei gilydd ac yn eu gwahaniaethu oddiwrth y byd tu allan iddynt." Dyna'r gyfeillach grefyddol a ddisgrifir yma ar ddalennau'r Testament Newydd, ac wrth farnu'r gyfeillach honno gwerth cofio fod bywyd a threfniadau amseroedd y Testament Newydd yn gyfnewidiol dros ben. Amser *exciting* ydoedd, amser *experiment*, ac fe geir yma gyfrif am lawer un o'r *experiments* yma. Ni bu oes llawer un ohonynt yn hir iawn, fel y gomiwnyddiaeth anhrefnus honno yn yr Eglwys yn Nghaersalem. Amgylchiadau lleol i raddau helaeth a fyddai'n penderfynu trefniant y gwasanaeth a'r weinidogaeth. Yn y ganrif gyntaf fe geir cyfianwhad o bob un o'r sistemau eglwysig sydd gennym ni heddiw.

Yn yr ugeinfed ganrif y mae'n amlwg ein bod wedi symud llawer oddiwrth ffurfiau'r eglwys fore, ac y mae hynny'n iawn os ydym yn credu fod bywyd yn beth sy'n datblygu. Y mae ein syniadau am lawer o bethau yn dra gwahanol. Yr oedd gan y gyfeillach grefyddol gynnar ei phroblemau. Nid ydynt mwyach yn broblemau i ni, ond y mae gennym ni broblemau, gwladol a rhyngwladol, na freuddwydiodd y gyfeillach grefyddol yn y ganrif gyntaf amdanynt. Gwir fod y gyfeillach drwy'r canrifoedd wedi casglu o'i chylch drimins dibwrpas, a bendithiol fyddai cael gwared ar y rhain. Ni chredaf er hynny, fod y credinwyr a ddysgodd am Grist wrth draed yr apostolion am i neb ystyried eu ffurfiau addoli hwy fel safon anghyfnewidiol i oesau'r dyfodol. Yn hytrach, rhodd Cristnogaeth

i'r byd yw—nid sistem ond bywyd. Ffordd o fyw ydyw, byw ar lwybrau Duw. Ysbryd ydyw. Ac y mae hefyd yn atitiwd bendant ar faterion pechod a santeiddrwydd. Gorchymyn Iesu ydyw cymryd gwerthoedd ysbrydol ei grefydd a'u mynegu yn iaith yr oes y mae dyn yn byw ynddi. Felly pan feddyliwn ni am gymdeithas y Testament Newydd y cwestiwn naturiol yw—nid pa faint o'r ffurfiau sydd wedi mynd i golli ond pa faint o ysbryd y Testament Newydd sydd wedi dianc oddiwrthym ni? Yn sicr fe wyddai'r Cristnogion cynnar beth oedd eu busnes yn y byd. Gwyddent beth oedd gwerth cymdeithas Gristnogol.

Y mae gennym ni ein cymdeithasau Cristnogol. Dyna ydyw'r cynulleidfaoedd yr ym ni'n aelodau ohonynt. A ydym yn rhoi i'n cymdeithas grefyddol yr hyn allwn ei roi, mewn gwaith, mewn esiampl, mewn cynhaliaeth?

Y gyfeillach grefyddol—beth ydyw? Golyga mewn geiriau plaen ein bod yn dod at ein gilydd i bwrpas. Y mae dyledswydd yn galw, ac angenrhaid yn cymell. A'r pwrpas—sylweddoli ein disgyblaeth Cristnogol. Gorchymyn Iesu oedd i ddynion garu ei gilydd, ac ni ellir esbonio'r gorchymyn ar wahan i'r syniad am gyfeillach grefyddol. Y mae pobl sy'n caru ei gilydd yn dod at ei gilydd, a gwnant hynny er mwyn cadw eu cariad yn fyw, a'i adgyfnerthu. Cofier mai'r enw a ddefnyddiai ein teidiau am y lle addoli oedd y "tŷ cwrdd." Tŷ i gwrdd â Duw, tŷ i gwrdd â'i gilydd am fod ganddynt ddiddordebau cyffredin. Chwi gofiwch am yr hanesyn hwnnw am ddisgyblion Iesu "gyda'i gilydd yn yr un lle." Yr oeddynt mewn gweddi, ac oherwydd iddynt gyflawni'r amod angenrheidiol, fe wawriodd arnynt oleuni newydd, fe roddwyd iddynt allu newydd. Gyda'i gilydd y mae dynion yn gallu gwneud pethau na allent wneud ar eu pennau eu hunain.

Meddylier funud am ein cyndeidiau Undodaidd. Cawsant eu herlid. Paham? Am eu bod yn mynnu tynnu at ei gilydd. Teimlent fod y gyfeillach grefyddol yn beth angenrheidiol i'w bywyd. Gwn fod yna lawer heddiw'n credu'n wahanol. Yn wir, fe amheuir gwerth y gymdeithas grefyddol. Arferwn ganu emyn Iolo Morganwg :—

Ni thrigi'n fôd neilltuol
Dan ryw feidroldeb gwael;
Nid tŷ gwaith dwylo dynol
Yw'r man lle mae dy gael;

Er hynny'n hawdd dy ganfod,
'Rwyt fyth yn agos iawn,
Yn nheimlad pob cydwybod,
Yng ngair dy ddwyfol ddawn.

Mynegi'r gwirionedd y mae Iolo na chyfyngir presenoldeb Duw i leoedd cysegredig, a'r perigl yw fod dynion yn gwneud y syniad am holl-bresenoldeb Duw yn esgus dros wadu gwerth yr addoliad cyhoeddus. Gosoder y peth fel hyn. Mewn un ystyr peth unigol a phersonol yw crefydd. Yn y dyfnder mater ydyw rhwng calon dyn

a'i Greawdwr, ac eto rhaid gofyn a all dyn gyrraedd y profiad ysbrydol uchel hwn heb gymorth a chydymdeimlad ei gyd-ddyn. Y peth sy'n bwysig yw nid y lle ond y gymdeithas grefyddol sy'n cwrdd yn y lle. Rhaid wrth hon cyn gwresogi teimlad yn y gydwybod y mae Iolo'n sôn amdani. Rhaid wrth hon er mwyn dehongli gair y ddwyfol ddawn. Pan fo dyn yn gofyn, ac y mae myrddiynau o ddynion yn gofyn—A allaf fyw'n dda heb fynychu'r moddion gras sydd mewn cymdeithas grefyddol ?—gofyn y mae mewn gwirionedd, A all dyn fyw'n grefyddol heb gyfeillach grefyddol a'i gyd-ddyn ? Yn y mater hwn o wrteithio'r ysbryd a yw dyn yn ddigonol ynddo'i hunan ?

Credaf mai John Wesley a ddywedodd na wyr y Beibl yma ddim am y crefyddwr unig. Er mwyn gwerthfawrogi'r profiadau sy'n dod i ni mewn cymundeb â Duw, y mae'n rhaid i ni wrth ein cyfeillach a'n gilydd. Dim ond trwy lafur a gweledigaeth llawer o fywydau y gallwn ni gael gafael ar y gwirionedd helaethach.

Cydnabyddwn fod yn y bywyd Cristnogol wybodaeth, a honno'n wybodaeth o radd uchel. Yn awr, a all dyn gynyddu mewn gwybodaeth heb hyfforddiant ? Fe ddywed ein cyfaill y gall ef weddïo heb fynd i'r gymdeithas grefyddol. Gobeithio y gall ond yn sicr fe fyddai ei weddi yn well pe bai argraff dylanwad y gyfeillach grefyddol arni. A chofier ni ellir ennill y ddawn i weddïo mor rhwydd a hynny. Dyna brofiad y gweddïwyr eu hunain. Trwy lawer strygl y daethant i dorri gair ger bron gorsedd y gras.

Y mae yna berigl mynd i siarad yn ysgafn am addoliad a chrefydd, ac y mae'r ysgafnder hwn, yn fy marn i, yn waeth i achos crefydd na'r difaterwch oer. Ni allwn ni fforddio gwrthod cymorth i gynyddu ein gwybodaeth am bethau dyfnion byd yr ysbryd. Yn strygl bywyd y mae angen bywiocau'r gydwybod. Y mae yna berigl idlio i'r gwaelaf. Y mae yna adegau pan mae gweddi'n ymddangos yn beth diamcan, a fflam ffydd yn llosgi'n isel, a'n crefydd mewn perigl o *evaporatio* yng ngwres temtasiynau a thrallodion bywyd. Dyna paham y mae arnom ni angen cymdeithas y saint. Ffordd sy'n rhy anodd ei cherdded yw ffordd y dyn da heb y gymdeithas honno. Dyna paham y mae cymeriadau mawr fel Paul ac eraill yn cydnabod yn ostyngedig eu dibyniaeth ar y brodyr yn yr eglwys.

Eich cymell yr wyf i ystyried pwysigrwydd eich aelodaeth o'ch cynulleidfa. Chwi, a dim ond chwi yn unig sydd yn gwybod a ydych yn gwneuthur eich rhan. Os ydych yn parchu crefydd eich teidiau cofiwch mai eich llaw chwi sydd yn mynd i estyn y grefydd honno i'r dyfodol. Er mwyn hynny, ac er mwyn eich bywyd crefyddol eich hun, gofalwch fod eich tystiolaeth yn bendant ac yn sicr yn y gymdeithas grefyddol. Nid oes yna ffordd arall i gadw'r fflam ysbrydol yng nghynn. Dim ond yn awyrgylch y gymdeithas y gall y fflam losgi, a *goleuo*.

A gaf fi awgrymu un penderfyniad y dylai pob un ohonom ei wneuthur ? Na fydded ein lle ni yn y gynulleidfa'n wag, a chofier fod ein brwdfrydedd ni yng ngwaith y gynulleidfa yn help i'r brodyr a'r chwiorydd sydd yno, ac uwchlaw pob dim ceisiwn wneud ein cyfeillach grefyddol yn un Gristnogol ei hysbryd. Cerddwn i'r addoliad cyhoeddus fel rhai sydd wedi eu paratoi eu hunain ar gyfer pwrpas neilltuol. Medd hen gyngor o'r dyddiau gynt, gwylia ar dy droed pan fyddech yn mynd i dy Dduw. Peidiwch a mynd i'r lle addoli yn ddiofal ac yn esgeulus. Rhaid i ni ein paratoi ein hunain cyn y gallwn ni dderbyn y fendith. Profiad y sant yw fod y nefoedd yn plygu'n isel at y sawl sy'n teimlo'r awydd i gyfathrachu a'r Nefoedd, a phan fo'r galon wedi ei pharatoi ei hun, yn ceisio Presenoldeb Duw yn yr ysbryd iawn fe draws-ffurfir y gyfeillach grefyddol fel y trawsffurfiwyd y cwmni hwnnw gynt yn Jeriwsalem a ddaeth at ei gilydd i'r un man a'r un lle mewn gweddi yn allu ac yn fywyd.

Un bore Sabath gwelwyd pump o ddynion ieuainc yn cerdded i mewn i gapel yng Nghapernaum. Un o'r pump oedd Iesu o Nasareth. Ar ddechrau'r gwasanaeth fe gododd y gynulleidfa ar ei thraed i adrodd geiriau'r fendith agoriadol. Adroddasant yr un geiriau gannoedd o weithiau o'r blaen, yn union fel y byddwn ni'n arfer adrodd geiriau Gweddi yr Arglwydd. Yr oedd un o'r cwmni hwnnw, Iesu, yn adrodd y geiriau fel pe bai ganddynt ystyr anhraethadwy iddo. Dywedai hwynt fel un yn siarad a Phresenoldeb anweledig. A dyma ddigwyddodd nesaf—fe geisiodd y pedwar dyn ifanc wneud yr un peth. Ac os oes yna bump mewn cynulleidfa sy'n siarad yn wirioneddol â Duw, ni allant gadw'r gyfrinach iddynt eu hunain. Cyn hir fe fydd yn y gynulleidfa honno fwy na phump addolwr.

Yn y gyfeillach yr ydym yn dylanwadu ar ein gilydd. Nid i ni yn unig y mae'r fendith, ond y mae ein presenoldeb yno yn help i'r gymdeithas. Fe fydd ein canu yn gwresogi calon rhywun. Fe fydd ein gweddi yn rhoi grym ym mhenderfyniad rhywun. Fe fydd ein sirioldeb yn rhoi tangnefedd i ryw galon ddrylliog.

Y mae mwy nag a ellir ei osod mewn argiwment yng ngeiriau Dafis Castell Hywel.

> Gweld fy nhad yn plygu'i liniau
> Mewn defosiwn hwyr a bore,
> Barodd imi'n blentyn gynta
> Feddwl am y Duw Gorucha.

Dyna werth y gyfeillach grefyddol. Y mae'n creu arferiad, ac yn disgyblu bywyd a fyddai fel arall yn tyfu'n anwadal, yn ddigyfeiriad, ac heb weledigaeth.

Dyn ifanc, a'r piti yw fod llaweroedd tebyg iddo, dyn ifanc lled sicr ohono'i hun, ond heb feddwl erioed yn ddwys ar unryw beth.

Un tro y mae'n digwydd galw ar flaenor, dyn amlwg am ei dduwioldeb. Yr oedd yr aelwyd yn gynnes a chroesawgar. Troes y siarad at faterion y capel. A dyna'r dyn ifanc lled sicr ohono'i hun yn dweud y gall dyn fod yn grefyddol ac yn Gristion heb fynychu'r gymdeithas grefyddol. Bu yno ddistawrwydd ar yr aelwyd, a'r blaenor yn syllu'n hir ar y tân a losgai o'i flaen mor gysurus. Yna y mae'n gafaelyd yn yr efail ac yn tynnu colsyn fflamgoch o'r tan, ac yn ei osod ar garreg yr aelwyd. Mewn tawelwch y mae llygaid y ddau ar y colsyn fflamgoch. Gwelant y fflam yn diffodd ; gwelant y gwres yn diflannu ohono. Ymhen ychydig y mae'r colsyn fflamgoch yn golsyn oer ar garreg yr aelwyd. Nid oedd angen dweud gair. Llefarai'r ddameg drosti ei hun. Dyna beth sydd yn digwydd i'r unigolyn pan symudir ef ymaith oddiwrth wresogrwydd y gyfeillach.

Briwsion Mathias.

"Bugeiliaid Sir Aberteifi."

"Swydd anrhydeddus a hen yw swydd bugail. Mae gan fugeiliaid enwogion lawer i ymffrostio ynddynt . . .

Gwyddom am feistri ein bugeiliaid eu bod, fel rheol gyffredin, yn ddynion synhwyrol, a llawn o ddymuniadau caredig i'r rhai sydd o dan eu gofal. Ond gwaith anhawdd yw iddynt ymryddhau oddiwrth hen arferion a welsant erioed. Y cwestiwn pwysig yw, Pa fodd i roddi cyfle i'n plant hŷn i ymgymysgu gyda ni yn ein haddoliadau cyhoeddus, a'n hysgolion Sabothol ? Mae rhy fach o wahaniaeth yn awr rhwng y bugail a'i gi."

Gwilym Marles yn 1865.

* * *

Gwell colli nac ennill os byddwch yn colli wrth ennill.—*Wm. Penn.*

* * *

Pan aeth y camel i chwilio am gyrn fe gollodd ei glustiau.

* * *

Annoeth cicio nyth cacwn.—*Anthropos.*

* * *

Enaid yw dyn ond y mae ganddo gorff.

* * *

Mae dy gyfrinach yn garcharor i ti, ond os gollyngi hi allan byddi di yn garcharor iddi hi.

Ble Ma Nhw?

YSTORI I'R PLANT GAN MRS. A. REES, LLANBEDR.

UN diwrnod yr oedd dau fachgen bach yn dod adref o'r ysgol gyda'i gilydd Ifan oedd enw un ohonynt a Jimmy oedd enw'r llall. Evacuee o Lundain oedd Jimmy, bachgen bach tua saith oed, ac yr oedd Ifan yn naw oed. Felly gwelwch fod Ifan dipyn yn hŷn na Jimmy. Nid oedd plant yr ysgol yn hoff iawn o Ifan, oherwydd yr oedd yn barod iawn i fwrw rhai bach yn llai nag ef ei hunan. Ni chlywsoch erioed iddo fwrw rhai mwy nag ef. Pam hyn? O! gwyddai mai efe a gawsai'r gwaethaf pe gwnae hynny. Beth fyddwn ni'n galw un felly, blant? Coward, onide. Wel, ar ôl i'r ddau fachgen ddyfod i le unig ar y ffordd, dyna Ifan yn cydio yng nghap Jimmy a'i daflu dros y clawdd i'r cae. Cymrodd Jimmy'r peth fel joke ar y dechrau, a dringodd i ben y clawdd er mwyn mynd i'r cae i hol ei gap, ond ni allai fynd dros y clawdd gan fod rhes o wifrau pigog (wire bigog fyddwn ni yn ei galw) ar ei ben. Daeth i lawr yn siomedig iawn, ac eisteddodd wrth fôn y clawdd, ac wrth feddwl na chawsai ei gap yn ôl, dechreuodd wylo, oherwydd ofnai y buasai ei fam yn ei geryddu am golli ei gap, gan mai cap lled newydd ydoedd.

Pan welodd Ifan Jimmy yn llefain, rhedodd adref gan ei adael wrtho'i hun. Dyna i chwi goward. Ni ddywedodd Ifan air wrth ei fam am y digwyddiad; felly cafodd dderbyniad gwresog fel arfer ganddi. Ond rhywfodd neu'i gilydd, nid oedd Ifan yn hollol hapus trwy'r prynhawn. Cofiai am Jimmy bach yn ei ofid o hyd. Ni chafodd gystal blâs ar ei dê ag arfer. Ar ôl tê, aeth allan i chwarae gyda Carlo'r ci, ond nid oedd fawr hwyl ar y chwarae. Yr oedd Carlo yn methu â deall beth oedd yn bod ar Ifan. Nid oedd yn neidio a rhedeg yn ôl ei arfer. Rhedodd Carlo i'r tŷ o'i flaen aeth Ifan linc-lonc ar ei ôl a phan gyrhaeddodd y tŷ, dyna lle'r oedd Carlo yn chwarae gyda'r gath, ac yr oedd yn cael llawer mwy o sbort ganddi.

Cyn hir, dechreuodd Ifan ddisgwyl amser mynd i'r gwely, oherwydd byddai siawns iddo anghofio popeth ar ôl dechrau cysgu. Aeth i'r gwely yn gynharach nag arfer, a chyn hir, fe gysgodd. Ond ar ôl cysgu am dipyn, yr annwyl fawr, cafodd y breuddwyd mwyaf dychrynllyd a gafodd yn ei fywyd. Yr oedd mewn gwlad hollol ddieithr, lle nad oedd neb a adwaenai, na neb yn siarad yr un iaith ag ef. Cerddai ar ryw ffordd unig wrtho'i hun. Yn sydyn, clywai ryw sŵn tu ôl iddo. Trôdd i weld beth oedd yn bod, a dyna lle'r oedd rhyw ddeuddeg o fechgyn mawr, mwy nag ef o lawer, phobo fastwn yn eu dwylo yn rhedeg ar ei ôl ac yn gweiddi, "Coward, Coward," ar dop eu lleisiau. Cafodd Ifan ofn enbyd, rhedodd am ei fywyd, ond yr oedd y bechgyn yn fwy nag ef, ac yn medru rhedeg yn gynt, ac er bod Ifan yn rhedeg nes ei fod ar golli

ei wynt, daliodd y bechgyn ef, a ffurfiasant yn gylch amdano, fel na allasai ddianc i'r chwith nac i'r dde. Dyna i chwi gornel cyfyng, onide !

Meddyliodd Ifan fod ei awr olaf wedi dod, ac na chae weld ei fam byth mwy, a gofidiai am na chawsai ei fam a'i dad wybod byth beth a ddigwyddodd iddo. Ar hynny, dyna un o'r bechgyn, yr un mwyaf o'r lot yn codi ei fastwn. Cafodd Ifan y fath fraw a barodd iddo roi'r ysgrech fwyaf oeraidd a glywyd erioed. Dihunodd bawb trwy'r tŷ ; rhedodd ei fam yn wyllt i'w ystafell, a gofynnodd, "Beth sy'n bod Ifan bach."? Erbyn hyn, yr oedd Ifan rhwng cwsg ac effro, clywodd ei fam yn siarad, a gofynnodd, "Pwy sy' 'na ?" "Dy fam sydd yma, beth sy'n bod arnat ti," meddai ei fam. "Ble ma nhw ?" gofynnai Ifan yn gyffrous. "Ble ma pwy ?" gofynnai ei fam. "Y bechgyn a'r pastynnau." atebai Ifan. "Ifan bach, yr wyt yn siwr o fod wedi bod yn breuddwydio," meddai ei fam. "Does yma ddim un bachgen yn agos. Yr wyt yn saff yn dy wely, cerdd i gysgu eto, dyna fachgen da." "O !" meddai Ifan, mewn syndod. Prin yr oedd yn coelio ei fam, yr oedd y breuddwyd wedi ei ddychrynu mor enbyd. Methodd â chysgu trwy'r nos, a dyna falch oedd ef i weld y bore yn gwawrio.

Paham feddyliwch chwi, blant bach, y cafodd Ifan y fath freuddwyd câs ? Am ei fod wedi bod yn gâs i Jimmy bach. Y mae Duw wedi gosod rhywbeth fel Wireless yn ein calonnau ni i gyd ; gelwir hi yn gydwybod, ac y mae Duw yn siarad a ni trwy'r Wireless hyn. Ond yr ydym ni yn rhy bengam yn aml i wrando ar Ei lais. Mae'n ormod o ffwdan gyda ni i droi'r switch.

A fu un ohonoch weithiau yn teimlo chwant bwrw carreg at ryw ffenestr, neu fynd i ryw ardd i hôl afalau heb gennad. Wel, pe baech ddim ond gwrando, mae Duw yn dweud wrthych trwy'r Wireless, "Paid, paid, nid yw yn iawn i ti wneud hynny." Cofiwch chwi, os na wrandawch chwi, yr ydych yn siwr o gael eich cosbi mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Meddyliwch am y gosb a gafodd Ifan am wneud tro câs a'r Evacuee bach dieithr. Y mae'r gydwybod neu'r Wireless fach yma yn dweud wrthych am fod yn blant da a charedig, gwneud arch eich rhieni a'r athraw yn yr ysgol, bod yn garedig wrth anifeiliaid mud. Ni fydd eisiau i chwi byth ofni cosb am wneud tro caredig. Cewch fwynhau eich bwyd a chysgu'r nôs heb weld bechgyn a pastynnau ar eich hôl, ac yna'n ysgrechian ac aflonyddu pawb trwy'r tŷ, a chael eich galw yn Cowards.

Bu'r breuddwyd yn wers i Ifan. Ni fu chwant arno gam-drin rhai yn llai nag ef ei hun byth wedyn.

Y GOF.

Heyrn a dur a fyn guro—o ganol
Tan gwynias a'u moldio
I reidiau gwlad,—rhy rhwd glo
A heyrn eu delwau arno. *Islan.*

Taliesin Griffiths.

UN O GEDYRN YR HEN DY CWRDD, ABERDAR.

"An oak has fallen. It will not shelter us any more. Therefore the wind will be that much keener."

DYNA ein teimlad ar ôl colli cyfaill a philer yn yr Hen Dy Cwrdd. Diflanna'r pileri o un i un. Teimlir y golled. Y mae'r bwlch yn fwy ar ôl ambell un. Nid dawn, nid dysg, ond calon lawn, calon yn llawn cariad at yr achos—dyna Taliesin Griffiths.

Pan groesodd ef ar Ionor 31, teimlir fod darn o enaid yr Hen Dy Cwrdd wedi croesi hefyd. I mi ef oedd y linc olaf yn y gadwyn yn cydio'r hen deip wrth y presennol. Teimlaf fod y gadwyn wedi ei thorri. Mawr ydyw'r golled, a ninnau mewn tristwch. Dylasai ei goffadwriaeth ein symbylu i frwdfrydedd llawnach, i ragor o weithgarwch, ond y mae'r weledigaeth yn pylu. Tecach yn ein golwg yw'r llwybrau esmwyth lle nad yw argyhoeddiad yn aflonyddu na mentro ymlaen i dir hollol newydd wedi ein symbylu gan "Undodiaeth Taliesin." Cyfyd to yn ein heglwysi heddiw na ddeallodd eto "Undodiaeth Taliesin." Yn ei natur ef nid oedd gyfaddawd ag uniongrededd. Ni allai ganu emynau iawnffyddol, fel y rhai hynny sy'n fodlon rhoi ffordd ar bopeth bron.

Undodiaeth Undodaidd, os goddefir yr ymadrodd, oedd ei eiddo ef. Undodiaeth, ei enwad, ei hoff Hen Dy Cwrdd, YR YMOFYNNYDD—dyna'i hoffterau. Un o geidwaid y ffydd ydoedd. Nid yw Undodiaeth mor ddiogel bellach yn ardal Aberdar. Nid agorasom eto ein llygaid ar faint ein colled.

Hyderaf y bydd i'r ergyd hwn brofi gwirionedd y dywediad "fod proffwydi yn codi o hyd yn Israel." "Pe tawai'r rhai hyn, llefarai'r cerrig yn y fan." Gobeithio mai dyna fydd hanes yr Hen Dy Cwrdd yn Aberdar.

Bu Taliesin yn weithgar, bu'n ffyddlon, bu'n deyrngar i'r achos yn yr Hen Dy Cwrdd. Yr oedd ganddo ffydd fawr, ac ysbryd iach, a heddiw pan mae gwerthoedd pennaf bywyd yn mynd yn isel eu pris ym marchnad y byd, colled anadfer yw colli gwr fel Taliesin Griffiths a oedd yn glynu mor ddiollwng wrthynt yng nghylchoedd personol a chyhoeddus ei fywyd. Yn fawr ei barch yn yr eglwys ac yn yr ardal, gwr llednais, diabsen, a diddichell ydoedd. Cyfaill gwir, gweithiwr gonest, swyddog gweithgar, blinder ei golli o'r Hen Dy Cwrdd, ond yno bydd perarogl ei fywyd yn aros ar ei ôl. Ei goffa sydd fel "Gwin Libanus" a'i weithredoedd yn ei ganmol.

Ffarwel gyfaill annwyl iawn, ffarwel Taliesin yr Undodwr.

Gwelir heibio'r bedd a'i gwynion
Obaith gwyn yn torri draw,
A chawn adrodd ein helyntion
Pan ddaw'r dydd i ysgwyd llaw.

D.T.W.

Gohebiaeth.

(Nid yw'r Golygydd yn gyfrifol am olygiadau eu ohebwyr).

CECRAN PLENTYNNAIDD.

Annwyl Olygydd—

Blin gennyf, fel darllennydd cyson YR YMOFYNNYDD eich bod yn caniatau gofod gwerthfawr ein misolyn i ohebiaeth nad yw ddim ond cecran plentynnaidd. Onid gwell fyddai defnyddio'r tudalennau prin i bwrpas mwy dyrchafol? Rhowch gyfle inni mewn Cylchgrawn Crefyddol ddarllen rhywbeth mwy cydnaws ag ysbryd yr Efengyl mewn dyddiau pan mae arweinwyr y byd yn hau ysbryd gelyniaethus rhwng y Cenhedloedd. Credaf mai gwell i'r troseddwyr hyn fyddai defnyddio eu doniau a gofod prin YR YMOFYNNYDD i ddiwyllio meddwl ieuenctid yr enwad. Cofier am Gwilym Marles a William James, i enwi ond dau o gewri ein pulpud. Coffa annwyl am arloeswyr diwylliant a moes. Rhaid meddu ar ysbryd goddefgarwch a gwyleidd-dra er hyrwyddo dyfodiad Teyrnas Nefoedd ar y ddaear. Gyda llaw, diolch i Mrs. A. Rees, Llanbedr, am ei chyfraniadau adeiladol i'r YMOFYNNYDD. Efelyched gweinidogion ac arweinwyr ein henwad esiampl hon.

E.T.

(Derbyniwyd hefyd lythyrau tebyg oddiwrth eraill yn mynegi yr un golygiadau ar drafodaeth sydd wedi crwydro oddiwrth ei thestun cyntaf.—*Golygydd.*)

Postscript y Golygydd.

DIOLCH gwresog i Gwrgant Morgannwg am ei air caredig am YR YMOFYNNYDD ac am ei rodd o hanner gini i gwrdd a'r gost ychwanegol o'i argraffu. Addysgwyd ef yn ysgol y Parch. R. J. Jones, Aberdar, a bu'n ddarllenydd cyson o'r YMOFYNNYDD am y rhan orau o oes y misolyn, a chofier fod y misolyn yntau'n tynnu'n agos at ei gant oed. Nid yn unig y mae Gwrgant Morgannwg yn ddarllenydd cyson, ond y mae'n un sy'n hoffi ei gyflwyno i'w ffrindiau. Ysgrifenna, "Y mae bron y cwbl o rifynnau YR YMOFYNNYDD ar gylchrediad ymhlith cyfeillion er hau yr "Had da" . . . Boed dyfodol disglair a llathr i'r YMOFYNNYDD a'i Olygydd parchus. Y mae ei sylwedd yn raenus, yn llenyddol, ac yn wir aruchel ei safon . . ." Diolch yn fawr am air mor garedig. Y mae'n help i baratoi'r rhifyn nesaf, pan mae'r fasged yn wag a'r cyfrannwyr yn anaml. Estynaf innau i'r bardd ddymuniadau gorau ein darllenwyr.

Bydd y Parch. J. H. Coram Davies, B.A., Caerdydd yn dechrau ei weinidogaeth yng Nghapel Lewin's Mead, Bryste, ym mis Ebrill. Bydd bwlch ar ei ôl yng Nghymru. Siaradir yn uchel am ei waith yng Nghaerdydd. Pob llwydd iddo yn ei faes newydd.

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1944-45.

SAFON I (i rai o dan 9 oed). *Holwyddoreg ar Grefydd*—y rhannau, "Pechod," "Y Beibl," "Iesu Grist."

SAFON II (o 9 i 12 oed). Yr un maes ag i Safon I ond disgwylir gwybodaeth lawnach.

SAFON III (o 12 oed i fyny). *Egwyddorion yr Undodiaid*—O "Y Beibl," tudalen 7, hyd y diwedd.

DYDDIAD YR ARHOLIAD—EBRILL 28, 1945.

Marwgofion.

IONOR 8, ar ôl cystudd cymharol fyr, RACHEL annwyl briod Thomas Evans, Woodlands, Talgarreg, a chyn hynny o Flaenaugwenog, yn 80 oed. Ganed a maged hi'n Penbwlch heb fod nepell o Rhydygwin ac yn ei blynyddoedd cynnar yno yr addolai. Hyd y diwedd yr oedd i Rhydygwin le cynnes yn ei meddwl ac un o'i harwyr oedd y Parch. David Evans, Cwmiago. Benyw fywiog, egniol ydoedd, a dawn arbennig ganddi i drefnu gwaith fferm, yn y tŷ, ar y buarth ac ar y maes. Yr oedd yn fam i dair merch a phedwar mab a chafodd fyw i'w gweld i gyd wedi ymsefydlu mewn cartrefi cysurus. Y plant a chysur y plant oedd y cyfan ganddi. Ers blynyddoedd cafodd drafferth fawr gan ei llygaid, a bu o dan driniaeth ragor nag unwaith flynyddoedd yn ôl. Ers llawer dydd yr oedd cystal a bod yn ddall. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Capel y Fadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. H. Ponsford, Talgarreg a D. Jacob Dafis, B.A. ; yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan y Parchn. Ben Davies, Llanarth a J. O. Jones, Pencae. Â ein cydymdeimlad i'r priod yn ei unigedd, y plant a'r wyrion.

DYDD Llun, Ionor 8, yn ysbyty Aberystwyth, bu farw JOHN CEREDIG JONES, Ardwyn, Gorsgoch, yn 31 oed, gan adael gwraig a thri phlentyn bychan, mam a thad, brawd a llawer o berthynasau a chydnabod i hiraethu ar ei ôl. Er mai aelod o Gapel Brynhafod oedd John, hanai o deuluoedd Undodaidd o'r ddwy ochr,—ei fam o'r un teulu a'r diweddar David Hughes, Rhydyfydr, a'i dad o deulu Abercwm. Claddwyd ei weddillion marwol ym mynwent Brynhafod y dydd Gwener canlynol, a'r Parchn. Aubrey J. Martin, B.A., Cribyn ; S. E. Bowen, Capel y Bryn a S. G. Thomas, Brynhafod yn gwasanaethu.

IONOR 12, bu farw y cyfaill JOHN THOMAS, 21, Ynysllwyd Street, Aberdâr yn 48 oed. Daeth yn ifanc iawn o Flaengwynfi i fyw gyda'i fodryb,

Mrs. D. Tyssul Davies, a gyda hi y bu am flynyddoedd hyd nes iddo wneud cartref iddo'i hun. Ni freintiwyd ef â chorff cryf, a dioddefodd gryn lawer ar hyd ei oes, ond er hynny meddai ar yspryd bywiog a llawen dros ben, ac ni fyddai byth yn achwyn. Hyd yn oed yng nghanol ei boenau fe ddywedai'r pethau mwyaf smala a direidi yn chwarae yn ei lygaid. Yr oedd pawb a'i hadwaenai yn ei barchu ac yn hoff iawn ohono. Cafodd amser caled dros y Nadolig ond adfywiodd eilwaith, ond gyda dechrau'r flwyddyn a'r tywydd garw tarawyd ef drachefn, a bu farw wedi wythnos o gystudd caled iawn. Gedy ar ei ôl weddw a mab ieuanc a chyflwynwn iddynt hwy, i'w chwaer ac i'r perthynasau, ein cydymdeimlad llwyraf. Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus dydd Iau, Ionor 18, a gwasanaethwyd gan y Parchn. Herbert Davies, B.A., B.D., ac E. R. Dennis.

Ionor 29, yn 86 mlwydd oed, Mrs. JANE DAVIES, gweddw y diweddar Daniel Davies, Frithwen, gerllaw Capel y Methodistiaid yn Llwyngroes, Ceredigion. Gydag un o'i meibion yn y Frithwen yr oedd yn cartrefu, ond bu farw priod y mab hwnnw yn ieuanc, gan adael teulu ar ei hôl, a symudodd hi at ei hunig chwaer sydd yn fyw, sef Miss Jenkins, Trecefel, gerllaw Tregaron. Bu yn orweddog yn y lle hwn am tua dwy flynedd a gweiniwyd arni gan ei chwaer gyda gofal a thiriondeb mawr. Dydd ei hangladd dywedodd ei gweinidog y Parch. D. Jones, Llwyngroes a Llangybi, mai y geiriau mwyaf cymwys iddo wneud sylwadau arnynt oedd "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth." Ei dystiolaeth oedd iddi wneud ei gorau gyda'i gorchwylion tymhorol, ac hefyd ei gorau fel aelod o eglwys Llwyngroes. Yr oedd drws ei thŷ yn agored bob amser i weision yr Arglwydd. Bu yn ffyddlon gydag oedfaon yr eglwys, a chynorthwyodd gyda phob peth i gynnal yr achos. Claddwyd y mmynwent eglwys y Methodistiaid yn Llangeitho. Cyflawnwyd y rhannau eraill o'r gwasanaeth gan y Parchn. D. Jones, Ficer Tregaron ; LewisWilliams, Rhydygwin ; Melville Jones, M.A., Bwlchygwynt, Tregaron ; D. Evans, Ficer Gartheli ; a Heber Alun Evans, Llangeitho. Gadawodd ddau fab di-briod, dau fab priod a'u teuluoedd ; un brawd sef Dr. Jenkins, Y Bryn, Llanybyther ; un chwaer, ac amryw o berthynasau eraill mewn galar.

Chwefror 1, ar ôl ychydig amser o gystudd, FRANCES JONES, Tyngors, Silian, ger Llanbedr yn 85 oed. Merch y Glaslwyn, Pontshaen ydoedd, a hi oedd yr olaf o'r teulu parchus hwn. Priododd Evan (Ifi) Jones, Glantre, a bu hi a'i phriod byw mewn nifer o fannau yng nghwrs y blynyddoedd—Darrenfach, Pantyryn, Cwmmarch, Moyddyn-fach, ond er's llawer blwyddyn bellach trigai hi a'i mhab yn Nhyngors. Un o blant cynulleidfa Llwynrhydowen ydoedd, ac yr oedd ei serch at y lle'n fawr. Yma y gorwedd llwch eu hanwyliaid—priod, dau fab, a phedwar brawd. Benyw weithgar, garedig, dyner galon ydoedd, ac uchelgais ei bywyd oedd cadw cartref clyd a chysurus i'w theulu. Claddwyd y dydd Llun dilynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan Ficer Silian a'r Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd ferch a dau fab i wylo ei cholli.

Un o'r ergydion gwaethaf a gafodd yr Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon ydoedd colli Mr. TALIESIN GRIFFITHS, 21, Cemetery Road, Trecynon, yn 68 oed. Bu farw yn sydyn iawn yn nhŷ ei chwaer-yng-nghyfraith, Mrs. Evans, 3, Broniestyn Terrace. Ni freuddwydiodd neb ohonom fod y diwedd mor agos, er hawdd oedd gweled nad ydoedd yn yr iechyd gorau oherwydd gwelwyd fod ei gerddediad wedi arafu, a rhoddodd ambell awgrym am y poen oedd arno, ond ni ddaeth i feddwl neb ohonom y byddem yn ei golli mor sydyn. Dyma un arall o ffyddloniaid yr Hen Dŷ Cwrdd wedi mynd, un o'r pileri, ac anodd iawn fydd llanw ei le. Yr oedd yr Hen Dŷ Cwrdd yn rhan ohono, ac fe geir gwacter mawr ar ei ôl. Yr oedd yn Undodwr o'r Undodiaid, ac fe alleisid bod yn sicr onid oedd ef yn y gwasanaeth yr oedd rhywbeth allan o le. Bu yn Llywydd y Gymdeithas South East Wales, yn aelod o'r Pwyllgor Gweithiol, a bu yn Drysorydd y Gymanfa Ganu am flynyddoedd, ac yn un o ddiaconiaid hynaf yr Hen Dŷ Cwrdd. Yr oedd yn deip ar ei ben ei hun, yn ddarllenwr eiddgar o'r Ymofynnydd a'r *Inquirer*, ac ymhyfrydai yn hanes yr enwad. Yr oedd yn adnabyddus iawn yn yr ardal oherwydd bu yn swyddog yn y Bwllfa am flynyddoedd lawer. Gwelir ei eisiau mewn llawer cyfeiriad a cheir hiraeth mawr ar ei ôl. Cyflwynwn i Mrs. Griffiths, ac i'w chwaer Mrs. Humphreys, yr unig un sydd ar ôl o deulu Pantglas, ac i'r perthynasau oll ein cydymdeimlad dwysaf yn eu hiraeth a'u colled. Claddwyd yng Nghladdfa Gyhoeddus, Aberdâr dydd Mawrth, Chwefror 6, a gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Marles Thomas, M.A., Cefn Coed ac E. R. Dennis.

Nodion yr Eglwysi.

CRONFA'R YMOFYNNYDD.—Derbyniwyd ym mhellach oddiwrth Brondeifi, £1 ; Ciliau Aeron, £1 ; Capelyfadfa, £1 ; Capelybryn, £1 : 1 : 0 ; Capelygroes, £1 : 14 : 4 ; Mrs. Mary Williams, Penbanc, Ffosyffin, Aberaeron, £1 ; Miss A. Jenkins, Trecefel, Tregaron, £1 ; Miss Evans, Garthwen, Mydroilyn, 10s.; Parch. J. Glynne Davies, Comber, Belfast, 10s.—D. Jones, Maesyrhaf, Lampeter.

APEL Y GYMANFA GYFFREDINOL AM £100,000.—Yng nghwrdd blynyddol ein Cymdeithas ym Mhantydefaid mis Awst diwethaf cyflwynwyd yr apel hon i sylw ein cynulleidfaoedd. Cafodd sylw pellach yn y Pwyllgor Gwaith, a phenderfynwyd yno ddanfon y Parch. J. Islan Jones, M.A. (ac yntau'n cydsynied) i osod y mater ger bron ein cynulleidfaoedd yn Sir Aberteifi. Trefnir hyn yng nghwrs y gwanwyn, a gofynnir yn daer am gydweithrediad ein cynulleidfaoedd yn y cynllun. Ym Morgannwg ac yn Lloegr y mae ein cynulleidfaoedd eisoes wrth y gwaith, a £20,000 wedi eu casglu.

S. E. BOWEN, Ysgrifennydd.

ABERDAR.—Ar Ionor 1 cynhaliwyd cwrdd anrhegu plant yr Ysgol Sul. Gofalodd y chwiorydd am gwpanaid o de a danteithion, a gwnaethant eu

rhan yn hwylus a dymunol. Daeth cynulliad da ynghyd, a phawb yn mwynhau'r sgwrs wrth y bwrdd. Dilynwyd y trefniadau hyn gan y cwrdd anrhegu a'i raglen adloniadol. Llywyddwyd gan Mr. Edgar Williams, ac anrhegwyd y plant gan ein gweinidog, y Parch. E. R. Dennis. Diolchodd ef iddynt am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn. Yn anffodus, ni ellir dweud hynny am y rhai mewn oed, ond cyfeiriwyd at ffyddlondeb y plant fel esiampl i'r rhai hynaf. Hyderir y bydd gair bach fel hyn yn deffro ynom ffyddlondeb mwy. Anrhegwyd y plant mwyaf a chopïau o'r *Perlau Moliant*. Gobeithir y gwnant ddefnydd ohonynt, ac y bydd llawer emyn yn aros yn y cof, yn arweiniad i'w hymarweddiad. Cyfrannwyd i'r rhaglen adloniadol gan y canlynol—Adroddiad : David James ; Caneuon : Lynda Rayson, Janet Davies, Marion Davies, a Miss Ray Williams ; Deuawd : Mrs. Ada Jenkins a Sheila Davies. Cafwyd datganiad gan barti o aelodau Cynghrair y Gwragedd dan arweiniad Mrs. Bessie James. Cyfeiliwyd gan Mr. J. Ivor Davies. Chwaraewyd tair chwarae gerdd fer gan Medi Williams a Rita Rowberry, dwy o'r plant lleiaf sydd wedi dangos gallu neilltuol mewn gwaith o'r fath. Bu cystadleuaeth frwd rhwng y plant yn ateb rhes o gwestiynau ar bethau cyffredinol. Bu hwyl dda ar y cwrdd, ac aeth pawb adref yn ddedwydd i ddechrau blwyddyn arall o wasanaeth.

ABERYSTWYTH.—Cynhaliwyd cwrdd blynyddol cynulleidfa Capelbach, Heol Newydd ar y Sul cyntaf o Chwefror ar ôl gwasanaeth y bore. Llywyddwyd gan Mr. A. T. Grindley, Cadeirydd y gynulleidfa. Wedi darllen a derbyn cofnodion y cwrdd blynyddol diwetha' darllenwyd adroddiad pwyllgor yr eglwys am 1944 gan y cadeirydd. Yn hwn gwneir cyfeiriad neilltuol at raddio o'n gweinidog ym Mhrifysgol Cymru yr haf diwetha' ac hefyd at ei briodas cyn diwedd yr un haf. Teflir cipdrem hefyd ar sefyllfa'r gynulleidfa yn ystod y flwyddyn a dywedir ein bod er gwaethaf amgylchiadau'r rhyfel yn dal ein tir yn lled dda. Rhoddwyd adroddiad y trysorydd gan Miss Getta Jones, ein trysoryddes. Mae hwn eto yn foddhaol iawn ar y cyfan, er y carem fod wedi gallu rhoddi rhagor o gyflog i'n gweinidog. Ail-etholwyd holl swyddogion yr eglwys ac hefyd aelodau'r pwyllgor sydd yma o hyd, ac atynt ychwanegwyd tri arall o blith y newydd-ddyfodiaid. Ail-etholwyd hefyd ein dau gynrychiolydd ar bwyllgor Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, sef, Mrs. J. E. Jones a'r Ysgrifennydd. Yn olaf pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch cynnes i'r Gymdeithas Gyffredinol, i'r Gronfa Gynorthwyol, i Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru ac i rai cyfeillion caredig am eu cymorth ariannol yn ystod 1944.

CAPEL Y FADFA.—Ionor 4 cafodd yr Ysgol Sul ei "Noson Lawen" flynyddol. Anffafriol oedd yr hin, ond daeth, os dim, fwy nag arfer o blant a phobl mewn oed ynghŷd. Cafwyd gwledd ragorol o dê—diolch i'r chwiorydd am hynny—a rhaglen ddiddorol iawn o adrodd a chanu gan y plant. Arweiniwyd y cyfarfod gan y Mri. Evan Davies, Maespwll a E. Lloyd Jones, Pantybryn. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Thomas, Green Grove. Rhwng y noddedigion a phlant teuluoedd perthynol i'r gynulleidfa y mae yma

nifer fawr o blant yn mynychu'r ysgol yn bur gyson. Pe ymgymerai rhagor o rai mewn oed a mynychu hefyd byddai yma ysgol lewyrchus iawn. Cafodd 54 o blant lyfrau gwobrwyon yn ystod yr hwyr. Yn "Dad Nadolig" yr oedd Mr. Ieuan Evans, Waun Wen. Cafwyd noson ddifyr a siarad pwrpasol.

CAPEL Y CWM.—Yr oedd dros bedwar ugain yn y capel nos Sadwrn, Chwefror 3, a mwy na'i hanner yn blant. Yr adeg oedd y te blynyddol, a rhoddwr y te y tro hwn oedd Mr. Evan Richards, Sychbant Farm, ac fe'n hatgofiwyd am ei frawd Mr. David Richards, Penlan Fawr, a fu'n ysgrifennydd y gynulleidfa am flynyddoedd, a'i dad o'i flaen yn un o sefydlwyr yr achos yn y lle. Nodweddion y teulu yw caredigrwydd a gwasanaeth, ac y mae'r rhain yn amlwg yn Evan mewn ffordd hynod o dawel a dirodres. Yr oedd y paratoadau i fyny a'r gorau a gwell nag a ddisgwylir y dyddiau hyn. Mr. James Thomas, Crossway, yw pen yr ysgol Sul, ac yr oedd ei lafur medrus yn amlwg yn y rhaglen dda a gafwyd gan y plant. Ar ddechrau pob blwyddyn rhydd yr Henadur Meredith Williams her i'r plant i wneud mynychiadau cyflawn, ac nid yw ef byth yn fyr ei addewidion i wobrwyo y rheini ac hefyd y lleill a gyrhaeddodd y nod namyn tri. Ei nifer eleni oedd un ar ddeg. Gwnaeth y gweddill ymdrech dda, ac am hynny gosododd Mrs. Meredith Williams ddarn arian yn nwrn pob un ohonynt. Cafwyd diolchiadau fyrdd mewn pennill a chân gan y plant ac mewn geiriau gwresog gan y gweinidog.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Islington, N.1., ar y Sul cyntaf o bob mis am 4.15 o'r gloch. Gan fod y bomiau'n eithriadol o aml ar y dyddiau cyn y gwasanaeth yn Ionor, ac yn wir ar y Sul, ac yn ystod awr y gwasanaeth, ni chawsom ein synnu na'n siomi o gael rhyw ddau ar bymtheg yn yr oedfa. Cawsom er hynny wasanaeth hwylus a phregeth ardderchog gan Mr.W. Vaughan Lewis ar ystyr "Ffyddlondeb." Chwaraeodd Mr. Lewis hefyd yr organ am y rhan fwyaf o'r gwasanaeth. Y mae ein dyled felly yn fawr iddo. Cymer ef ddiddordeb mawr yn ein hachos, ac y mae bob amser yn barod iawn i'n helpu hyd eithaf ei allu. Pleser mawr oedd gweld ein cyfaill annwyl, Mr. David Davies (Llwynifan), yn ein gwasanaeth. Balch oeddym i'w weld yn edrych mor dda ar ôl ei flynyddoedd hir yn y Mor Canoldir. Pob hwyl i chwi, David—gwyddom y byddoch yn ein gwasanaeth cyn gynted ag y cewch y cyfle. Trefniadau'r dyfodol—Mawrth : Parch. T. Oswald Williams, M.A. ; Ebrill : Parch. E. R. Dennis ; Mai : Parch. J. Tyssul Davis, B.A. ; Mehefin : Parch. J. Marles Thomas, M.A. ; Gorffennaf : Parch. E. O. Jenkins ; Awst : Parch. Aubrey J. Martin, B.A. ; Medi : Parch. D. Jacob Dafis, B.A. ; Hydref : Parch. J. D. Jones, B.A., B.D.

TREBANOS.—Nos Nadolig cynhaliwyd "awr lawen" dan ofal Mrs. Glyn Rees a Mrs. M. T. Davies. Mwynhaodd hen ac ifanc bob munud o'r amser.

Ar Ragfyr 26 cynhaliwyd Cymanfa Ganu. Unodd cynulleidfaoedd Gosen a'r Graig i'r pwrpas hwn, a threfnwyd rhaglen o donau canadwy. Rhyw fath ar *experiment* y gellir disgrifio'r fenter, a throes allan yn llwyddiant mawr.

Yn sicr fe all y Gymanfa hon ddod yn un o sefydliadau'r gymdogaeth. Trefnwyd cwrdd y bore ar gyfer y plant. Agorwyd yr oedfa gan y Parch. Dl. John ; llywyddwyd gan Mr. Emlyn Thomas (Gosen) ; arweiniwyd y canu gan Mr. Elfed Williams (Gosen). Yn ystod y cwrdd bu'r plant yn cydadrodd hanes y bugeiliaid dan ofal Miss Harriet Lewis (Gosen). Arweinydd y canu yn oedfaon y prynhawn a'r hwyr oedd Mr. H. H. Morgan (Graig). Dechreuwyd oedfa'r prynhawn gan Lieut. Bryn Williams, Slough, ac oedfa'r hwyr gan y Parch. J. D. Jones. Llywyddwyd yn y prynhawn gan Mr. John Hopkin (Graig), ac adroddwyd darn o'r ysgrythur gan Miss Mina Davies (Graig). Llywyddwyd yn oedfa'r hwyr gan y Parch. Dl. John, ac adroddwyd darn o'r ysgrythur gan Miss Lena Lewis (Gosen). Wrth yr organ yr oedd Mr. D. Jenkins Jones, B.Sc. (Gosen) yn oedfa'r bore, a Mr. I. E. Hopkin, B.Sc. (Graig) yn yr oedfaon eraill. Yn y prynhawn a'r hwyr yr oedd Capel y Graig yn orlawn a bendith ar ganu'r dydd. Yr anthemau oedd "Ar lan Iorddonen ddofn" (Gabriel), a "Oh ! never bow we down" (Handel). Ysgrifennydd y Gymanfa yw Mr. W. J. Bowen (Graig) a'r trysorydd yw Miss M. James (Gosen).

Nos Galan darparwyd Sosial ar gyfer aelodau'r adran o Gynghrair y Gwragedd. Daeth cwmni da at ei gilydd, a mwynhawyd gwledd. Canwyd detholion gan y côr a fu allan y noson gynt yn canu'r flwyddyn i mewn, a phan dorrwyd blwch casglu'r côr cafwyd ynddo bedair punt ar ddeg at gysuron y bechgyn a'r merched sydd yn y lluoedd.

Dydd Sadwrn, Ionor 6, cynhaliwyd te parti'r ysgol Sul, a daeth cynulliad da ynghyd. Rhoddwyr y te oedd Mr. a Mrs. Arthur J. Williams, a darparasant wledd yng ngwir ystyr y gair. Iddynt hwy yr oedd yr achlysur yn ddathliad o'u priodas arian, ac wedi'r wledd cyflwynwyd iddynt ill dau a Meudwen y dymuniadau gorau gan y Cynghorydd D. G. Thomas, Y.H., Mr. John Hopkin, Parch. Lewis Morgan, Miss Ann Morgan, a'r gweinidog, yr hen a'r ifanc yn uno yn y banllefau. Atebodd Mr. Williams drosto'i hun a'i briod a'r ferch mewn geiriau pwrpasol iawn. Y mae'r tri yn weithwyr selog gyda'r achos, Mr. Williams yn ddiacon ac yn drysorydd yr ysgol Sul, Mrs. Williams yn athrawes, a Miss Williams yn drysorydd y Banc. Cafwyd rhaglen gymysg gan y plant a chwaraeon.

Nos Sul, Ionor 14, unodd cynulleidfaoedd Gosen a'r Graig i ganu detholion o raglen eu cymanfa undebol, Mr. H. H. Morgan yn arwain a Mr. I. E. Hopkin, B.Sc. yn cyfeilio. Llywyddwyd gan y Parch. J. D. Jones. Trefnwyd y cyfarfod er elw trysorfeydd cysuron y ddwy gynulleidfa. Yn y pwyllgor ar ddiwedd y cyfarfod penderfynwyd ar y paratoadau ar gyfer y gymanfa nesaf.

Nos Iau, Ionor 25, y noson oeraf ers blynyddoedd maith, yn ôl yr awdurdodau ar y tywydd, chwaraewyd yn y Neuadd, ddrama Leyshon Williams, "Help Llaw Chwith," gan gwmni drama Carmel, Clydach, dan gyfarwyddyd Mr. John Thomas. Er gerwinder yr hin daeth cwmni gweddol ynghyd, a gwerthfawrogwyd yr actio rhagorol. Aeth yr elw i *Jubilee Fund* Cymdeithas Morgannwg.

PA BETH WYT TI !

I

Wen awenyddiaeth, pa beth yw ?
Rhin cyfrin can mewn meddwl byw,
A hithau'r goeth beroriaeth gain
Eneiniog awen yw mewn sain.

II

Claer wên y Pur, pa beth yw hon ?
Telyneg fechan rasol lon ;
Ei chwrdd a wneir ar lawer pryd
Ar lwybrau drama rhyddiaith byd.

III

Beth gân y ser a'r heuliau pell ?
Caniadau cynnar gwawrddydd well,
A'u hatsain geir ar aml ennyd
Ar dannau dynol Telyn Bywyd.

IV

Pa gennad rydd tirf egin fyrdd ?
Mireinder glesni'r mor o wyrdd ?
A chainc organau'r gwynt ? Ust ! Clyw !
Yn datgan maent "Duw Cariad yw."

V

Pa beth yw Duw ? Gloyw hanfod yw
A draidd yn wres pob elfen fyw,
Yn Dad i ddyn, a'i raslawn rin
A rydd i'w blant flas y gwin.

VI

Urddasol ddaear beth wyt ti ?
Isalaw wyrthfawr, ddofn ei si,
A gordia a gorfoledd côr,
Awengerdd fawr cysawdiau'n Hiôr.

VII

Pa beth wyt ti, O enaid hardd ?
Drud ronyn o'r Anfarwol Fardd,
Yr Anadl byw, y Bywiol Falm,
Dry einioes dyn yn ddwyfol Salm.

Melincryddan. GWRGANT MORGANNWG.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.